ATODLEN 5

TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

**RHAN 5**

DARPARIAETHAU ATODOL

*Setliadau ac ymddiriedolaethau noeth*

30 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pe bai plentyn person ("P") (oni bai am y paragraff hwn), oherwydd paragraff 27 neu 28 neu baragraff 3(1) o Atodlen 8 (ymddiriedolaethau noeth), yn cael ei drin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe bai—

(a) y prynwr mewn perthynas â thrafodiad tir,

(b) yn dal buddiant mewn annedd, neu

(c) wedi gwaredu buddiant mewn annedd.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) mae P ac unrhyw briod neu bartner sifil i P i'w trin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe bai neu pe baent y prynwr, yn dal y buddiant neu (yn ôl y digwydd) wedi gwaredu'r buddiant, a

(b) nid yw'r plentyn i'w drin felly.

(3) Nid yw is-baragraff (2)(a) yn gymwys i briod neu bartner sifil P os nad yw'r ddau ohonynt yn cyd-fyw (gweler paragraff 25(3) am ystyr hynny).

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) person ("D") yn caffael, yn dal neu'n gwaredu prif fuddiant mewn annedd yn enw plentyn neu ar ran y plentyn,

(b) D yn gwneud hynny drwy arfer pwerau a roddir i D fel dirprwy i'r plentyn, ac

(c) D yn dal y buddiant hwnnw ar ymddiriedolaeth ar gyfer y plentyn, neu yn achos gwaredu, wedi ei ddal ar ymddiriedolaeth ar gyfer y plentyn.

(5) Yn is-baragraff (4), ystyr "dirprwy" yw—

(a) person a benodir o dan adran 16 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9), neu

(b) person a benodir i swydd gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i Gymru a Lloegr (ac felly mae'r cyfeiriad at fuddiant yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth gan berson o'r fath yn gyfeiriad at ei ddal ar sail gyfatebol o dan y gyfraith honno).